# Aros

Aros i'ch plentyn ddechrau siarad – gyda geiriau, sŵn ac ystumiau. Mae hyn yn golygu rhoi amser i'ch plentyn ddechrau siarad neu gael tro yn y sgwrs.

**Pam ei bod yn bwysig aros?**

Mae angen mwy o amser ar blant nag ar oedolyn i feddwl am y gair neu eiriau maen nhw eisiau eu dweud. Mae'n helpu i ddatblygu eu hyder a gwneud iddyn nhw deimlo fel eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'n rhoi cyfle i'r plentyn ddweud yn union beth mae eisiau, nid beth mae rhywun arall efallai'n 'meddwl' ei fod eisiau ei ddweud.

**Beth ddylwn i aros amdano?**

Gall eich plentyn ddechrau siarad drwy unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Defnyddio gair neu eiriau
- Defnyddio sŵn neu rywfaint o siarad.
- Pwyntio at rywbeth
- Defnyddio ystum
- Yn edrych arnoch chi/defnyddio mynegiant wyneb
- Eich tapio neu eich tynnu i gael eich sylw




**Am syniadau pellach edrychwch ar y fideos**

https://www.llyw.cymru/siarad-gyda-fi

**Sut?**

**Arhoswch i'r plentyn ryngweithio â chi cyn i chi ymuno eto.**

**Cofiwch chwilio am unrhyw adwaith.**

**<u>SUT DDYLWN I AROS?</u>**

- Sylwch ar beth sydd o ddiddordeb i'ch plentyn cyn dechrau'r sgwrs eich hun
- Oedwch i roi amser i'ch plentyn ymateb i bethau e.e. synau, fel y gloch drws
- Rhowch gyswllt llygad iddo ac edrychwch â diddordeb ar beth mae'n ei wneud/ei ddweud
- Arhoswch cyn dechrau sgwrs